# RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod rhithiol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2021

**Yn Bresennol**: Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)
Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd),

Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts a Margaret Murley Roberts

**Ymddiheuriadau**: Dim

**Hefyd yn Bresennol**: Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd Llinos M Huws;
Cynghorydd Richard A Dew – Aelod Portffolio – Cynllunio (mewn perthynas ag eitem 5);
Cynghorydd R Meirion Jones – Aelod Portffolio – Addysg, Llyfrgelloedd ac Ieuenctid (mewn perthynas ag eitem 4);
Cynghorydd Ieuan Williams – Aelod Portffolio – Iaith Gymraeg (ar gyfer eitem 4)

(2.00 o'r gloch yp - 4.00 o'r gloch yp)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2021 fel cofnod cywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Y Gymraeg** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | • **Strategaeth iaith**<br><br>**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith:-**<br><br>• **y dylid cyhoeddi Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021: Adroddiad asesu (drafft) ar y wefan gorfforaethol;**<br>• **y dylid cymeradwyo Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (drafft) ac awdurdodi'r swyddogion perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r deilydd portffolio, i gwblhau unrhyw waith adolygu pellach i'r strategaeth ddrafft.** |

| | |
|---|---|
| | • **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg**<br><br>**PENDERFYNWYD argymell I'r Pwyllgor Gwaith y dylid cymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Diffiniad rôl y cydlynwyr Iaith dalgylch (drafft) ac awdurdodi'r swyddogion perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r deilydd portffolio, i gwblhau unrhyw waith adolygu pellach i'r strategaeth ddrafft.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Adroddiad Adolygu** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD nodi:-**<br><br>• **Y newidiadau yn y cyd-destun cenedlaethol a lleol;**<br>• **Canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn Rhan 2;**<br>• **Y materion fydd angen eu hadolygu wrth baratoi Cynllun Diwygiedig yn Rhan 3;**<br>• **Y casgliadau yn rhan 6 o'r Adroddiad Adolygu.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Rhaglen Waith** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br><br>• **Cytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22**<br>• **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Eitemau er gwybodaeth** |
| PENDERFYNIAD | Roedd yr eitemau canlynol er gwybdodaeth yn unig:-<br><br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Trefniadau Llywodraethiant<br><br>• Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Adroddiad Cynnydd Chwarter 2, 2021/2022 |